


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bro Morgannwg

Cyhoeddwyd: Medi 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 498A2014

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn wedi'i baratoi ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry a Helena Keatley o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Cyflawnodd y Cyngor y rhan fwyaf o'i amcanion a chanolbwyntiodd ar fynd i'r afael â meysydd gwan ond dylai wneud mwy o ddefnydd o feincnodi allanol mewn perthynas â thargedau mewnol ac adrodd ar berfformiad 8

Cydymffurfiodd y Cyngor â gofynion cyhoeddi Llywodraeth Cymru, ond nid yw ei ddulliau o gadarnhau data ar gyfer y contractwr Gwasanaeth Hamdden mor gryf ag y maent ar gyfer ei wasanaethau ei hun 20

Mae gan y Cyngor gynlluniau effeithiol ar gyfer rheoli'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu ac mae wedi datblygu cynllun sydd wedi'i fwriadu i baratoi ei weithlu ar gyfer y dyfodol 21

Yn gyffredinol, mae gan y Cyngor gryfderau o ran ysgogi gwelliannau ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau ac mae'n ymateb yn gadarnhaol i heriau. Fodd bynnag, mae angen gwelliant sylweddol o ran darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl ac o ran rheoli'r contract hamdden 23

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 24

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am ardal Bro Morgannwg a'r Cyngor 25

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 27

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg 30

# Adroddiad manwl a chynigion ar gyfer gwella

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (y Cyngor) wedi darparu a gwerthuso gwasanaethau yn 2012-13. Mae'n seiliedig ar waith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a chan yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau'r Cyngor i ddarparu a gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-13 a'i waith cynllunio ar gyfer gwella yn 2013-14. Gan ystyried hyn, daw'r Archwilydd Cyffredinol i gasgliad o ran a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Canfuwyd bod y Cyngor, yn 2012-13, wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i amcanion ac wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael â meysydd gwan ond dylai wneud mwy o ddefnydd o feincnodi allanol mewn perthynas â thargedau mewnol ac adrodd ar berfformiad.

3 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- nid oedd y cyfeiriadau at gyflawni targed fel dull o asesu llwyddiant yn rhoi darlun cytbwys o berfformiad bob tro;
- roedd y Cyngor wedi cynllunio gwelliannau ym mhob maes lle roedd data cenedlaethol yn dangos gwendid posibl;
- mae adolygiad a gwerthusiad blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn dangos bod gan y Cyngor gynlluniau priodol i fynd i'r afael â'r problemau y mae'n eu hwynebu ym maes gofal cymdeithasol;
- barnodd Estyn fod gwasanaeth addysg y Cyngor a'i allu i wella yn "ddigonol";
- gwelwyd gwelliannau mewn presenoldeb mewn ysgolion uwchradd er na lwyddwyd i gyflawni'r amcan o sicrhau perfformiad yn y chwartel uchaf;
- mae perfformiad y Cyngor yn parhau i fod ymysg y gwaethaf yng Nghymru o ran darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl ac mae'r trefniadau presennol ar gyfer gosod targedau yn golygu bod y sefyllfa hon yn annhebygol o wella;
- mae'r Cyngor yn cynyddu cyfran ei stoc tai sy'n cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC);
- nid oes gan y Cyngor drefniant effeithiol ar gyfer asesu perfformiad ei wasanaeth hamdden;
- mae perfformiad y Cyngor o ran gweinyddu Budd-dal Tai wedi gwella mewn rhai meysydd, fel cyflymder prosesu ceisiadau newydd ond mae agweddau eraill - megis adennill gordaliadau - wedi dirywio; ac
- nid yw'r Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'i gynllun iaith Gymraeg ond mae'n cyflwyno mentrau i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.

4 Canfuwyd hefyd bod y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion cyhoeddi Llywodraeth Cymru, ond nid yw ei ddulliau cadarnhau data ar gyfer y contractwr Gwasanaeth Hamdden mor gryf ag y maent ar gyfer ei wasanaethau ei hun. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae adroddiadau'r Cyngor ar berfformiad ar gyfer 2012-13 yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru; ac
- mae systemau presennol y Cyngor i ddadansoddi data perfformiad yn gadarn ar y cyfan, ond maent yn cael eu defnyddio'n anghyson ar gyfer gwasanaethau ar gontract allanol.

5 Canfuwyd bod gan y Cyngor, ar gyfer y cyfnod 2013-14, gynlluniau effeithiol ar gyfer rheoli'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu ac mae wedi datblygu cynllun sydd wedi'i fwriadu i baratoi ei weithlu ar gyfer y dyfodol:

- mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer 2013-2017 yn amlinellu'n effeithiol sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei arbedion arfaethedig; ac
- mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro llawer o'i rolau rheoli ac wedi cymryd camau i ymgorffori cynllunio'r gweithlu ar draws y sefydliad, ond mae'n rhy gynnar i asesu ei effaith.

6 O ystyried yr uchod, a'r dystiolaeth a ddarparwyd, daw'r Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod y Cyngor yn gyffredinol wedi dangos cryfderau o ran ysgogi gwelliannau ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau a'i fod yn ymateb yn gadarnhaol i heriau. Fodd bynnag, mae angen gwelliant sylweddol o ran darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl ac o ran rheoli'r contract hamdden.

## Cynigion ar gyfer gwella

| | |
|---|---|
| C1 | Gwella adroddiadau ar berfformiad drwy egluro yn glir:<br>• y manteision sy'n deillio o gyflawni amcanion; a'r<br>• materion sy'n codi yn sgil methu â chyflawni amcanion a'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau gwelliant. |
| C2 | Adolygu'r dulliau o osod targedau fel modd o ysgogi gwelliannau er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r lefel o wasanaeth y mae'r aelodau yn ei disgwyl. |
| C3 | Gwella'r ffordd y rheolir y contract Hamdden drwy:<br>• fireinio'r gyfundrefn rheoli contractau i sicrhau ei bod yn profi'n ffurfiol ac yn systematig i ba raddau y mae'r contractau yn cael eu monitro'n effeithiol gan roi sylw penodol i'r contract Hamdden;<br>• cynnal adolygiad i benderfynu ar y lefel a'r gymysgedd briodol o adnoddau sydd eu hangen i fonitro'r contract Hamdden yn effeithiol;<br>• sicrhau bod y diffiniadau safonol ar gyfer dangosyddion perfformiad yn cael eu defnyddio a bod data yn cael eu cofnodi yn unol â hynny gan roi sylw penodol i'r contract Hamdden; a<br>• hyfforddi aelodau i sicrhau bod swyddogion yn cael eu herio'n effeithiol. |

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda mae cynghorau, Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella eu gwasanaethau[1]. Gan gynnwys cyfraniadau gan arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), a Chomisiynydd y Gymraeg, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr hyn y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (y Cyngor) yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae hefyd yn cynnwys hunanasesiad y Cyngor ei hun ar y cynnydd y mae'n credu y mae wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf ar Gyngor Bro Morgannwg ar ddechrau 2013.

8 Rydym yn casglu ein tystiolaeth o'n hadolygiadau o berfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn a thrwy wybodaeth a rennir gydag arolygiaethau eraill yng Nghymru. Ni chynhaliwyd adolygiad llawn o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor eleni.

9 Bydd yr adroddiad yn dod i'r casgliad p'un a yw'r Archwilydd Cyffredinol yn credu bod y Cyngor yn debygol o wella ei drefniadau a'i wasanaethau ar gyfer 2014-15.

10 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu cymryd camau, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y problemau i:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd o fewn amserlen y cytunir arni;
- gwneud argymhellion mwy ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad mwy ffurfiol ei wneud, mae'r sefyllfa'n fwy difrifol ac mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- ar gyfer materion mwy difrifol, gall gynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad gydag argymhellion; ac
- fel cam olaf, argymell i Weinidogion Llywodraeth Cymru y dylent ymyrryd mewn rhyw ffordd.

11 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

1 Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur.

# Cyflawnodd y Cyngor y rhan fwyaf o'i amcanion a chanolbwyntiodd ar fynd i'r afael â meysydd gwan ond dylai wneud mwy o ddefnydd o feincnodi allanol mewn perthynas â thargedau mewnol ac adrodd ar berfformiad

## Nid oedd y cyfeiriadau at gyflawni targed fel dull o asesu llwyddiant yn rhoi darlun cytbwys o berfformiad bob tro

12 Cyhoeddodd y Cyngor *'Cynllun Gwella Bro Morgannwg Rhan 2'* (yr Adroddiad) ym mis Hydref 2013. Rhoddodd hyn farn y Cyngor am ei gynnydd mewn perthynas â'i wyth amcan gwella ar gyfer 2012-13[2]. Adolygwyd yr Adroddiad i asesu gennym a oedd yn rhoi darlun teg a chytbwys o berfformiad ac yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

13 Yn adran trosolwg yr Adroddiad deuir i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni pump o'i hamcanion yn llawn, ei fod wedi cyflawni dau ohonynt yn rhannol ac wedi methu â chyflawni un. Gellir gwella ar adroddiadau ar berfformiad yn y dyfodol drwy nodi'n gliriach y manteision sy'n deillio o gyflawni'r amcanion, y materion sy'n deillio o beidio â chyflawni amcanion a'r camau sy'n cael eu cymryd.

14 Er enghraifft, mewn perthynas â phresenoldeb mewn ysgolion gosodwyd amcan clir i gyrraedd y "chwartel uchaf" o ran perfformiad. Daw'r adroddiad i'r casgliad cywir nad yw hyn wedi cael ei gyflawni gan nodi bod y Cyngor yn y 7fed safle yng Nghymru a bod angen iddo fod yn y 5ed safle er mwyn bod yn y chwartel uchaf. Ceir esboniad hefyd o'r hyn y mae angen iddo ei wneud os yw am gyflawni ei amcan. Yn ddiweddarach yn yr adroddiad mae'r Cyngor yn cynnwys data mewn tabl sy'n cynnwys symbol sy'n awgrymu ei fod wedi cyflawni ei amcan. Mae hyn yn creu rhywfaint o ddryswch ac mae'n awgrymu bod y Cyngor o'r farn bod y sefyllfa'n foddhaol, er gwaethaf y ffaith nad yw wedi cyrraedd ei darged.

15 Mae'r Adroddiad hefyd yn datgan bod yr amcan ar gyfer y grant cyfleusterau i'r anabl wedi ei gyflawni oherwydd bod y targed ar gyfer yr amser cyfartalog a gymerir i ddarparu grant wedi ei gyrraedd. Dywed hefyd fod Bro Morgannwg yn cael ei nodi fel yr awdurdod sydd wedi gwella fwyaf yng Nghymru o ran darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Nid yw hyn yn rhoi darlun cytbwys o berfformiad oherwydd er gwaethaf y ffaith ei fod wedi cyrraedd ei darged roedd perfformiad y Cyngor yn dal i fod yn y chwartel isaf o blith cynghorau Cymru, a gostyngodd ei safle ymhlith y 22 o gynghorau o'r 17eg safle yn 2011-12 i'r 18fed safle yn 2012-13.

## Roedd y Cyngor wedi cynllunio gwelliannau ym mhob maes lle roedd data cenedlaethol yn dangos gwendid posibl

16 Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor adrodd ar set gyffredin o ddangosyddion i alluogi cymhariaeth o berfformiad mewn meysydd gwasanaeth allweddol ledled Cymru. Mae 30 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol wedi cael eu pennu sy'n cwmpasu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru.

2 Mae Atodiad 4 yn rhestru'r wyth amcan gwella ar gyfer 2012-13.

17 Yn gyffredinol, mae perfformiad y Cyngor o ran y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol yn amrywio'n sylweddol mewn rhai meysydd gwasanaeth - mae rhai dangosyddion yn dangos bod ei berfformiad ymysg y goreuon, tra bod eraill, sy'n berthnasol i'r un maes gwasanaeth, yn dangos ei fod ymhlith y gwannaf. Er enghraifft yn 2012-13:

- o blith yr wyth Dangosydd Strategol Cenedlaethol sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol plant cafodd perfformiad y Cyngor ei raddio fel y perfformiad gorau yng Nghymru ar gyfer pedwar ohonynt, ond roedd ymysg y gwannaf ar gyfer tri ohonynt;
- o blith y pedwar Dangosydd Strategol Cenedlaethol sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol oedolion roedd y Cyngor ymysg y pum Cyngor gorau yng Nghymru ar gyfer un dangosydd, ond roedd ymysg y gwannaf ar gyfer dau ohonynt;
- o blith yr wyth Dangosydd Strategol Cenedlaethol sy'n ymwneud ag addysg roedd y Cyngor ymysg y pum Cyngor gorau ar gyfer pump ohonynt, ond roedd ymysg y gwannaf ar gyfer tri ohonynt;
- roedd y Cyngor yn yr 8fed a'r 15fed safle ar gyfer dau Ddangosydd Strategol Cenedlaethol yn ymwneud â rheoli gwastraff; ac
- roedd y Cyngor yn y chwartel isaf ar gyfer darparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl ac ar gyfer cymryd camau i sicrhau bod eiddo yn y sector preifat a fu'n wag ers tro yn cael ei feddiannu unwaith eto.

18 Yng Nghymru mae 14 o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus wedi eu dewis gan Lywodraeth Cymru am eu bod yn adlewyrchu materion o bwys megis cymorth i ofalwyr, presenoldeb mewn ysgolion a chyflwr priffyrdd. Unwaith eto, gwelir amrywiad eang o ran perfformiad mewn meysydd gwasanaeth yn 2012-13:

- o blith pum Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol plant roedd perfformiad y Cyngor ymysg goreuon ar gyfer pedwar ohonynt, ond roedd ei berfformiad ymysg y gwannaf ar gyfer un ohonynt;
- o blith y tri Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol oedolion roedd y Cyngor ymysg y pum Cyngor gorau yng Nghymru ar gyfer dau ohonynt, ond roedd ymysg y gwannaf ar gyfer un ohonynt;
- o blith y tri Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus sy'n ymwneud ag addysg roedd y Cyngor yn y 7fed safle ar gyfer dau ddangosydd sy'n ymwneud â phresenoldeb mewn ysgolion ac yn y 13eg safle ar gyfer asesiadau Cyfnod Allweddol 3; ac
- roedd perfformiad y Cyngor ymysg y gwannaf ar gyfer nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden; priffyrdd a thir perthnasol a archwiliwyd sydd o safon dderbyniol ac ar gyfer canran y sefydliadau hylendid bwyd a oedd yn cydymffurfio'n fras â safonau hylendid bwyd.

19 Gan ystyried data'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, byddem felly yn disgwyl i'r Cyngor ddeall y rheswm dros berfformiad cymharol gwan, penderfynu ar ei flaenoriaethau o ran anghenion a'r adnoddau sydd ar gael a rhoi trefniadau ar waith i gymryd unrhyw gamau gwella angenrheidiol yn y meysydd canlynol:

- Gofal cymdeithasol plant: yr asesiad cychwynnol o blant a sefydlogrwydd lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal;
- Gofal cymdeithasol i oedolion: y gyfradd gymharol uchel o bobl hŷn (65 oed a throsodd) ac oedolion a gefnogir yn y gymuned yn ogystal â chyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau cymdeithasol;
- Addysg: darparu datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig ac argaeledd asesiadau athrawon yn y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3; a
- Grant Cyfleusterau i'r Anabl; Eiddo gwag yn y sector preifat; Y defnydd o gyfleusterau chwaraeon a chanolfannau hamdden; Asesiadau hylendid bwyd a glendid priffyrdd.

20 Rydym yn cydnabod, o gofio'r lleihad mewn adnoddau y mae'r Cyngor yn ei wynebu, na all roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r holl faterion hyn. Fodd bynnag, er na fydd y brif flaenoriaeth yn cael ei rhoi i rai materion, ar lefel gwasanaeth mae'r gwaith cynllunio'n ystyried yr angen i ddatrys gwendidau posibl:

- Mae AGGCC o'r farn bod gan y Cyngor gynlluniau i fynd i'r afael â'r materion ym meysydd gofal cymdeithasol plant ac oedolion.
- Mae'r Cyngor wedi nodi presenoldeb mewn ysgolion fel amcan gwella, ond nid yw wedi cyflawni ei nod o sicrhau perfformiad yn y chwartel uchaf. Mae cynlluniau gwasanaeth addysg yn cynnwys camau gweithredu a fwriedir i wella'r ddarpariaeth o ddatganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig.
- Er y bu'n flaenoriaeth ar gyfer gwella ers nifer o flynyddoedd, mae'r perfformiad o ran y grant cyfleusterau i'r anabl yn parhau i fod yn gymharol wael heb unrhyw gynlluniau dibynadwy ar waith i wella perfformiad yn sylweddol.
- Mae Cynlluniau Gwasanaeth yn cynnwys camau gweithredu i leihau nifer yr eiddo gwag yn y sector preifat; cynyddu nifer ac effeithiolrwydd asesiadau hylendid bwyd; a gwella glendid priffyrdd.

## Dengys adolygiad a gwerthusiad blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) fod gan y Cyngor gynlluniau priodol i fynd i'r afael â'r materion y mae'n eu hwynebu ym maes gofal cymdeithasol

21 Bob blwyddyn, mae Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn drafftio adroddiad sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ba mor dda y maent yn credu mae gwasanaethau Oedolion a Phlant yn perfformio. Yna bydd AGGCC yn rhoi adroddiad ar ei barn ar hunanasesiad y Cyngor ei hun ( http://cssiw.org.uk/our-reports/local-awdurdodau-report/2013/vog-blynyddol-evaluation/?lang=cy).

22 Adroddodd AGGCC fod y Cyngor wedi cydnabod y meysydd lle roedd ganddo broblemau gyda pherfformiad ac, o ran gofal cymdeithasol plant, bod y Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Gomisiynu Plant a Phobl Ifanc sy'n nodi sut y bydd anghenion gofal cymdeithasol plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu diwallu o fewn yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor yn ystod y cyfnod 2013 i 2018. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r ailatgyfeiriadau wedi lleihau o ganlyniad i amrywiaeth o gamau gweithredu gan y Cyngor.

23 Mae gan y Cyngor hefyd strategaeth i leihau'r gwariant uchel ar ofal preswyl i blant a phobl ifanc drwy ganolbwyntio ar ofal maeth, a lleoliadau i blant sy'n ymddwyn yn heriol. Nododd AGGCC yr angen i wella sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac i wella cyfleoedd i bobl ifanc o ran cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Mae AGGCC yn bwriadu cynnal adolygiad cenedlaethol o ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

24 Mae gan y Cyngor strategaeth gomisiynu ar gyfer pobl hŷn sy'n nodi sut y bydd anghenion gofal cymdeithasol pobl hŷn yn cael eu diwallu o fewn yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor yn ystod y cyfnod 2013 i 2018. Nododd AGGCC y bu cynnydd yn nifer y bobl ag anghenion cymhleth sy'n cael gofal yn y cartref, yn hytrach nag mewn cartrefi preswyl neu gan wasanaethau nyrsio. Mae'r Cyngor hefyd yn ceisio datblygu cynllun gofal ychwanegol i bobl hŷn a fydd yn darparu cymorth rownd y cloc a phecynnau gofal cymunedol.

25 Mae AGGCC hefyd yn credu bod y Cyngor wedi cymryd camau i leihau nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty, er bod y data perfformiad yn dangos bod nifer yr achosion o oedi yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae AGGCC yn bwriadu ategu ei asesiad drwy adolygu sut y caiff achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal eu rheoli.

26 I gloi, roedd AGGCC yn credu bod gan y Cyngor drefniadau blaengynllunio cryf a blaenoriaethau ac amcanion clir; ei fod yn parhau i weithio gyda phartneriaid i lunio dull integredig o ddarparu gwasanaethau ac yn arwain ar nifer o fentrau i integreiddio â'r sector Iechyd.

## Barnodd Estyn fod gwasanaeth addysg y Cyngor a'i allu i wella yn "ddigonol"

27 Arolygwyd y Cyngor gan Estyn[3] ym mis Mai 2013. Cyhoeddwyd ei adroddiad arolygu ym mis Medi 2013 (www.estyn.gov.uk/english/provider/673LAESCYP/)

28 Barnodd Estyn fod perfformiad y Cyngor yn ddigonol oherwydd:

- mae perfformiad ysgolion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 4, wrth ystyried prydau ysgol am ddim, yn debyg i gyfartaledd Cymru, neu'n uwch;
- mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn debyg i gyfartaledd Cymru o gymharu â phresenoldeb disgyblion mewn ysgolion tebyg o ran meincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer prydau ysgol am ddim;
- mae'r cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ymhlith yr isaf yng Nghymru;
- mae canran y dysgwyr sy'n aros mewn addysg yn ôl-16 yn gymedrol pan ystyrir y lefel isel o amddifadedd;
- mae cymorth da ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol; ac
- mae niferoedd isel o leoedd dros ben gan y Cyngor ac mae ganddo gynlluniau addas ar waith i leihau'r rhain ymhellach.

29 Fodd bynnag:

- mae perfformiad ysgolion yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, o ystyried prydau ysgol am ddim, islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru;
- mae lefel yr her i ysgolion wedi bod yn anghyson, sy'n golygu nad yw rhai ysgolion sy'n tanberfformio yn cael eu nodi'n ddigon cyflym gan yr awdurdod neu wasanaeth gwella ysgolion y consortia rhanbarthol;
- mae un ysgol gynradd wedi aros yn y categori mesurau arbennig am ddwy flynedd a thair ysgol uwchradd wedi cael eu rhoi mewn categorïau monitro anffurfiol gan Estyn dros y 12 mis diwethaf; ac
- nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro ac arfarnu lles wedi cael eu datblygu'n llawn.

30 Barnodd Estyn hefyd fod 'Gallu i wella' y Cyngor yn 'ddigonol'. Roedd yr adroddiad yn cynnwys chwech o argymhellion i'r Cyngor sef:

- codi safonau mewn ysgolion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3;
- gwella trylwyredd a lefel yr her a roddir i ysgolion ynglŷn â'u perfformiad ac ansawdd yr arweinyddiaeth;
- defnyddio'r pwerau llawn sydd ar gael i'r Cyngor i wella ysgolion sy'n tanberfformio;

3 Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992. Ei rôl yw arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

- gwneud yn siŵr bod cynllunio ar gyfer gwella yn drylwyr ac yn gyson ar draws yr holl wasanaethau;
- sicrhau bod systemau cadarn ar waith ar gyfer arfarnu deilliannau mentrau a'u bod yn dangos gwerth da am arian; a
- chryfhau trefniadau ar gyfer monitro ac arfarnu lles plant a phobl ifanc.

31 Mae Estyn o'r farn bod y Cyngor yn dod o dan y categori gweithgarwch dilynol ac y bydd angen ei fonitro. Bydd Estyn yn penderfynu ar ddyddiad, ffocws a natur y gweithgarwch monitro hwn.

## Gwelwyd gwelliannau mewn presenoldeb mewn ysgolion uwchradd er na lwydddwyd i gyflawni'r amcan o sicrhau perfformiad yn y chwartel uchaf

32 Yn 2010 cofnododd y Cyngor gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n absennol o ysgolion uwchradd, yn ogystal â chynnydd yn nifer cyfartalog y diwrnodau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau. O ganlyniad, mabwysiadodd y Cyngor yr amcan "Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd er mwyn cyrraedd safon berfformio chwartel uchaf Cymru yn ystod 2011/12". Rhagorodd y Cyngor ar y targed yr oedd wedi'i osod ar gyfer y dangosydd ond methodd â chyrraedd y safle yr oedd wedi anelu ato.

33 Yn ei adroddiad mae'r Cyngor yn dweud "Er bod presenoldeb yn ysgolion uwchradd y Fro wedi gwella'n gyffredinol, ni lwyddwyd hyd yn hyn i gyrraedd safon y chwartel uchaf". Os oedd y Cyngor yn anelu at fod yn un o'r cynghorau a oedd yn perfformio orau yng Nghymru yn 2012-13, yna roedd ei ddull o osod ei darged yn ddiffygiol. Mae'r Adroddiad yn nodi'n gywir bod yn rhaid i'r Cyngor gyrraedd y 5ed safle, neu'n uwch yng Nghymru mewn unrhyw flwyddyn benodol er mwyn sicrhau perfformiad yn y chwartel uchaf. Fodd bynnag, gosododd y Cyngor ei darged 92 y cant ar gyfer 2012-13 gan gyfeirio at berfformiad Cynghorau eraill yn 2011-12. Er mwyn cyrraedd y 5ed safle, mae defnyddio'r dull hwn yn cymryd yn ganiatáol y bydd perfformiad Cynghorau eraill yn gwaethygu neu'n aros yr un fath. Yn ymarferol, mae perfformiad Cynghorau eraill hefyd wedi gwella felly er gwaethaf y mentrau a fabwysiadwyd gan y Cyngor, nid yw wedi gwella ei safle yn ddigonol. Roedd y cynghorau a berfformiodd orau yn 2012-13 yn cyflawni presenoldeb o rhwng 93 y cant a 94 y cant mewn ysgolion uwchradd - os yw'r Cyngor am fabwysiadu targed yna byddai'n fanteisiol anelu at y perfformiad gorau os yw'n dymuno gwella ei safle yn hytrach na dibynnu ar berfformiad Cynghorau eraill yn dirywio.

34 Mae'r Cyngor yn parhau i gymryd camau i wella presenoldeb mewn ysgolion, gan gynnwys sefydlu Fforwm Presenoldeb misol i fonitro ffigurau presenoldeb ysgolion; darparu cefnogaeth gan Wasanaeth Lles Addysg i ysgolion sydd â phroblemau presenoldeb difrifol a newidiadau i systemau ac arferion, megis caniatáu absenoldeb astudio.

35 Mae ysgolion wedi cael hyfforddiant ac arweiniad gan y Gwasanaeth Lles Addysg. Maent hefyd wedi cael eu hannog i ddatblygu cynlluniau gweithredu ac i rannu syniadau a dulliau llwyddiannus drwy arweinwyr systemau.

36 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod arferion presenoldeb da yn dechrau ar lefel ysgolion cynradd, felly caiff camau eu cymryd hefyd i annog ysgolion cynradd sydd â phroblemau presenoldeb posibl i ddatblygu cynlluniau gweithredu i liniaru unrhyw ddatblygiadau niweidiol. Dengys y tueddiadau fod presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi gwella o tua 94 y cant yn 2010-11 i 94.5 y cant yn 2012-13 pan gyrhaeddodd y 7fed safle yng Nghymru. Mae'r rhai sy'n perfformio orau yn cyflawni cyfraddau rhwng 94.6 y cant a 95 y cant, felly er bod perfformiad y Cyngor yn agos at y goreuon bydd angen iddo asesu'r gwelliant sydd ei angen i warantu safle yn y chwartel "uchaf".

## Mae'r Cyngor yn cydnabod perfformiad gwael ar gyfer cyhoeddi datganiadau o anghenion addysgol arbennig o fewn 26 wythnos ac mae ganddo gynlluniau ar gyfer gwella

37 Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig yn ddogfen ffurfiol sy'n manylu ar anawsterau dysgu plentyn a'r help a fydd yn cael ei roi iddo. Bwriad y datganiad yw sicrhau bod plentyn yn cael yr help sydd ei angen arno pan na fydd ysgol yn gallu diwallu anghenion o'r fath ar ei phen ei hun. Er mai dim ond lleiafrif o ddisgyblion sy'n debygol o fod angen datganiadau o'r fath, maent yn hanfodol er mwyn sicrhau bod disgyblion sy'n agored i niwed yn cael yr help sydd ei angen arnynt.

38 Dengys y data yn Arddangosyn 1 fod perfformiad y Cyngor ymysg y gwaethaf ar gyfer canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddir o fewn 26 wythnos. Er bod y data hyn yn cael eu cynnwys yn adroddiad perfformiad y Cyngor, nid yw'n esbonio ei fod wedi cydnabod y broblem hon a bod gan y gwasanaeth addysg gynlluniau i gymryd camau i wella. Caiff y term "eithriadau" ei gynnwys yn y tabl ac mae'n cwmpasu'r sefyllfaoedd hynny lle y gall y Cyngor fod yn dibynnu ar sefydliad arall (megis sefydliad iechyd) i ddarparu gwybodaeth sydd ei hangen er mwyn cynhyrchu'r datganiad. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys gwybodaeth am achosion lle na chaiff eithriadau eu cynnwys, gan nodi'r perfformiad y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r Cyngor.

## Mae perfformiad y Cyngor yn parhau i fod ymysg y gwaethaf yng Nghymru ar gyfer darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl ac mae'r trefniadau presennol ar gyfer gosod targedau yn golygu bod y sefyllfa hon yn annhebygol o wella

39 Gan gydnabod ei berfformiad gwael o gymharu â gweddill Cymru, pennodd y Cyngor amcan i leihau'r amser a gymerir i ddarparu grant cyfleusterau i'r anabl. Wrth osod ei tharged ar gyfer 2012-13, defnyddiodd y Cyngor yr amser cyfartalog a gymerir ledled Cymru yn 2010-11 (387 o ddiwrnodau) fel cyfeirbwynt. Yn ei asesiad o'i berfformiad yn 2012-13 dywed y Cyngor fod amseroedd aros ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl wedi lleihau'n barhaus dros y pedair blynedd diwethaf. Nododd adroddiad Perfformiad Gwasanaethau Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru

Arddangosyn 1 - Datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos
Roedd perfformiad y Cyngor ymysg y gwaethaf o ran canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddir o fewn 26 wythnos

| | 2011-12 | | 2012-13 | |
|---|---|---|---|---|
| | Perfformiad | Safle Cymru | Perfformiad | Safle Cymru |
| Arddangosyn 1 - Datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos (yn cynnwys eithriadau) | 52.4% | 19eg o blith 22 | 47.8% | 20fed o blith 22 |
| Datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos (heb gynnwys eithriadau) | 91.7% | 16eg o blith 22 | 95.7% | 17eg o blith 22 |

*Dangosyddion Strategol Cenedlaethol ystadegau Llywodraeth Cymru EDU/015a ac EDU/015b*

(2011/12) mai Bro Morgannwg oedd yr awdurdod a oedd wedi gwella fwyaf yng Nghymru o ran darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

40 Nid yw hyn yn cyflwyno darlun cytbwys o berfformiad y Cyngor, gan nad yw'n adrodd bod ei berfformiad yn parhau i fod ymysg y gwaethaf yng Nghymru a bod ei safle wedi gostwng o'r 17eg safle yng Nghymru yn 2011-12 i'r 18fed safle yng Nghymru yn 2012-13. Ar ben hynny mae'r naratif yn adroddiad y Cyngor yn ddryslyd. Yn yr Adroddiad Trosolwg ar dudalen 12 dywed y Cyngor mai ei darged (ar gyfer 2012-13) oedd cyrraedd cyfartaledd Cymru (ar gyfer 2010-11) o 386 o ddiwrnodau o leiaf. Ar dudalen 12 dywed hefyd ei fod, drwy gyflawni 346 o ddiwrnodau, wedi cyflawni ei amcan gwella. Fodd bynnag, mae'r tabl ar dudalen 15 yn yr un adroddiad yn cynnwys colofn sy'n nodi targed o 326 o ddiwrnodau ar gyfer 2012-13, a pherfformiad gwirioneddol o 346 o ddiwrnodau - ac os felly, nid yw'r targed wedi ei gyrraedd.

41 Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r perfformiad cyfartalog yng Nghymru yn y flwyddyn flaenorol fel sail ar gyfer gosod targedau yn y maes gwasanaeth hwn ers nifer o flynyddoedd. Canlyniad hyn yw er bod y Cyngor wedi lleihau'r amser a gymerir, nid yw wedi cyflawni'r gyfradd wella a gyflawnwyd gan eraill.

42 Y cyfartaledd gwirioneddol yng Nghymru ar gyfer 2012-13 oedd 271 o ddiwrnodau, felly roedd y dull a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn golygu bod ei berfformiad gwirioneddol 75 diwrnod yn waeth na chyfartaledd Cymru y flwyddyn honno.

43 Mae'r rhai y mae eu perfformiad yn y chwartel uchaf ar gyfer 2012-13 yn cyflawni cyfartaleddau sy'n amrywio o 153 o ddiwrnodau i 236 o ddiwrnodau, gyda'r mwyafrif yn prosesu nifer sylweddol fwy o grantiau na'r Cyngor. Er enghraifft, darparodd Conwy 149 o grantiau mewn 153 o ddiwrnodau ar gyfartaledd o gymharu â'r Cyngor a gyflawnodd 93 o grantiau mewn 346 o ddiwrnodau ar gyfartaledd. Mae'r Cyngor wedi gosod targed o 326 o ddiwrnodau ar gyfer 2013-14, y cyfartaledd a gyflawnwyd yng Nghymru yn 2012-13.

44 Mae'r Cyngor wedi bod yn ceisio gwella ei berfformiad ers sawl blwyddyn ond mae wedi methu â gwella ei safle yn sylweddol o gymharu â'r cynghorau sy'n perfformio orau yng Nghymru. Mae'n parhau i roi blaenoriaeth i ddarparu grantiau cyfleusterau i'r anabl ond mae angen iddo newid yn sylfaenol ei ddull o wella os yw am symud o'r chwartel isaf yng Nghymru. O ystyried y perfformiad gwael parhaus a'i bod yn annhebygol y bydd gwelliant sylweddol, rydym yn bwriadu arolygu'r gwasanaeth hwn yn 2014-15.

## Mae'r Cyngor yn cynyddu cyfran ei stoc dai sy'n cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru

45 Rhaid i'r Cyngor sicrhau, lle y bo'n ymarferol, bod ei stoc dai o bron i 4000 eiddo yn cyrraedd SATC[4]. Mae wedi pennu amcan i "gynyddu'r gyfran o stoc dai'r Cyngor sy'n cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, erbyn 31 Mawrth 2014."

46 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu rhaglen wella ar gyfer y cyfnod 2012-2016 a fydd yn golygu gwariant o £82 miliwn i sicrhau bod eiddo yn cyrraedd SATC. Yn 2011 roedd y Cyngor wedi gosod targed i sicrhau bod 10 y cant o'r stoc yn cyrraedd SATC erbyn 2012-13. Roedd hwn yn darged rhesymol fwy na thebyg o ystyried bod yn rhaid i'r Cyngor gynnal arolygon, penodi contractwyr a dechrau ar ei raglen. Mae'r Cyngor wedi adrodd bod 20 y cant o'r stoc wedi cyrraedd y safon erbyn diwedd 2012-13 ac mae wedi sefydlu dulliau adrodd rheolaidd i fonitro cynnydd a chael barn tenantiaid am weithrediad y rhaglen.

4 Mae Safon Ansawdd Tai Cymru wedi ei gosod gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir i bob landlord cymdeithasol yng Nghymru sicrhau bod ei gartrefi yn cyrraedd safon hon sy'n cynnwys gosod a gwella pedair elfen graidd - cegin, ystafell ymolchi, systemau gwresogi gan gynnwys boeler a systemau trydanol ac ansawdd yr amgylchedd o amgylch cartref.

## Nid oes gan y Cyngor drefniant effeithiol ar gyfer asesu perfformiad ei wasanaeth hamdden

47 Ym mis Awst 2012 ffurfiodd y Cyngor bartneriaeth 10 mlynedd gyda Parkwood Leisure Limited i redeg cyfleusterau'r Cyngor yn y Barri, Penarth, y Bont-faen a Llanilltud Fawr, gyda'r Cyngor yn cadw perchnogaeth o'r adeiladau a'r cyfleusterau. Mae Parkwood Leisure yn ddarparwr gwasanaethau hamdden profiadol iawn ac mae'r Cyngor yn disgwyl i'r bartneriaeth sicrhau buddsoddiad o oddeutu £3 miliwn i adnewyddu adeiladau ac y byddai ystod y rhaglenni gweithgaredd yn cael ei chynyddu.

48 Ym mis Mehefin 2014, cyhoeddwyd ein canfyddiadau yn dilyn adolygiad o drefniadau rheoli contract y Cyngor. Daeth yr adroddiad hwn i'r casgliadau canlynol o ran y Gwasanaethau Hamdden:

- nid yw'r trefniadau sydd ar waith i fonitro cynnydd y contract yn effeithiol;
- nid oedd y diffiniadau safonol yn y contract yn cael eu dilyn ac mae hyn wedi arwain at ffigurau defnyddio is; ac
- nid yw'r gwaith o fonitro'r contract yn digwydd yn rheolaidd, ac nid yw'n gadarn.

49 Mae'r Cyngor wrthi'n gwella ei drefniadau ac yn rhoi'r cynigion ar gyfer gwella sydd yn ein hadroddiad ar waith.

## Mae perfformiad y Cyngor wrth weinyddu Budd-dal Tai wedi gwella mewn rhai meysydd, fel cyflymder prosesu ceisiadau newydd ond mae agweddau eraill - megis adennill gordaliadau - wedi dirywio ychydig

50 Cynhaliwyd adolygiad o berfformiad y Cyngor o ran rheoli a phrosesu hawliadau Budd-dal Tai a gwelwyd bod y llwyth achosion ym Mro Morgannwg wedi aros oddeutu'r un fath gan leihau o 12,150 o hawlwyr ym mis Mai 2012 i 12,130 o hawlwyr ym mis Chwefror 2013.

51 Adolygwyd yr amser y mae'r Cyngor yn ei gymryd i brosesu gwahanol agweddau ar hawliadau Budd-dal Tai a chanfuwyd darlun cymysg, gyda lefelau gwasanaeth boddhaol, yn ogystal â meysydd lle mae angen gwelliannau.

52 Ers y llynedd, gwelwyd y gwelliannau canlynol:

- Mae'r amser cyfartalog a gymerir i brosesu ceisiadau newydd wedi gwella o 17 diwrnod yn 2011-12 i 15 diwrnod yn 2012-13. Mae hyn yn sylweddol well na chyfartaledd Cymru o 20 diwrnod yn 2012-13.
- Mae'r amser cyfartalog a gymerir i brosesu achosion lle mae newidiadau mewn amgylchiadau wedi digwydd wedi aros yn gyson ar chwe niwrnod yn 2011-12 a 2012-13. Mae hyn yr un fath â chyfartaledd Cymru.

- Nid oes unrhyw hawliadau heb eu setlo dros 50 diwrnod yn 2012-13 o gymharu ag un y cant yn 2011-12. Mae'r perfformiad yn parhau i fod yn llawer gwell na chyfartaledd Cymru, sef pedwar y cant yn 2012-13.

- Mae cywirdeb wrth brosesu ceisiadau yn parhau i fod yr un fath, sef 99 y cant, yn 2011-12 a 2012-13 ac mae'n well na chyfartaledd Cymru, sef 94 y cant yn 2012-13.

- Cynyddodd canran y gordaliadau a adenillwyd 'yn ystod y flwyddyn' o 86 y cant yn 2011-12 i 94 y cant yn 2012-13. Mae hyn yn sylweddol uwch na pherfformiad cyfartalog Cymru o 72 y cant yn 2012-13.

53 Fodd bynnag, mae rhai meysydd y mae angen eu gwella:

- Mae canran y ceisiadau newydd y penderfynir arnynt o fewn 14 diwrnod wedi lleihau, gan ddisgyn o 95 y cant yn 2011-12 i 93 y cant yn 2012-13 ond mae hyn yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru o 88 y cant yn 2012-13.

- Mae canran gordaliadau'r flwyddyn flaenorol a adenillwyd wedi gostwng o 41 y cant yn 2011-12 i 36 y cant yn 2012-13. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru, sef 32 y cant yn 2012-13.

- Mae nifer yr ymchwiliadau i dwyll wedi aros yr un fath dros y ddwy flynedd ddiwethaf, sef wyth fesul 1,000 o achosion. Mae nifer y sancsiynau llwyddiannus sy'n cael eu defnyddio hefyd wedi aros yr un fath, sef dau fesul 1,000 o achosion yn 2011-12 a 2012-13. Mae'r perfformiad hwn yn is na chyfartaledd Cymru, sef wyth fesul 1,000 o achosion yn 2012-13.

- Mae nifer yr apeliadau wedi lleihau o 100 yn 2011-12 i 76 yn 2012-13. Yn 2012-13, cymerodd y Cyngor gyfartaledd o 48 diwrnod i brosesu'r apeliadau hyn (nid oes data ar gyfer 2011-12). Mae hyn yn parhau i fod yn hwy na chyfartaledd Cymru, sef 38 diwrnod yn 2012-13. Mae canran yr apeliadau a gyflwynwyd i'r Gwasanaeth Apeliadau o fewn pedair wythnos wedi gostwng o 68 y cant yn 2011-12 i 47 y cant yn 2012-13. Gwelwyd gwelliant mewn perfformiad ledled Cymru yn y cyfnod hwn gan godi o 43 y cant yn 2011-12 i 51 y cant yn 2012-13.

54 Ym mis Ebrill 2011, dechreuodd Llywodraeth y DU ar raglen ddiwygio a arweiniodd at gyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn raddol rhwng mis Hydref 2013 a 2017. Mae newidiadau i Fudd-dal Tai yn ffocws pwysig i ddiwygiadau'r Llywodraeth sydd wedi'u bwriadu i sicrhau gostyngiad o oddeutu £2.3 biliwn yng ngwariant blynyddol y DU. Bydd ein hadolygiad y flwyddyn nesaf yn canolbwyntio ar sut y bydd y Cyngor yn parhau i berfformio'n well ac yn mynd i'r afael â'r meysydd gwannach, yng nghyd-destun y newidiadau yn sgil cyflwyno'r cynllun Credyd Cynhwysol.

## Nid yw'r Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'i Gynllun Iaith Gymraeg ond mae'n cyflwyno mentrau i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg

55 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir i'r pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau ddod i rym drwy isddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg y cyngor yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

56 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu Cynlluniau Iaith Gymraeg a rhoi cyngor ar eu gweithredu. Mae cynghorau'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynluniau iaith.

57 Daeth adolygiad diweddaraf y Comisiynydd o Gyngor Bro Morgannwg i'r casgliad, er bod y Cyngor yn cymryd camau i gadw at y nod o hybu a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg, mae'n cydnabod bod yn rhaid iddo wneud mwy. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi lansio gwefan gorfforaethol ddwyieithog newydd a gwasanaethau electronig eraill, ond mae angen iddi hyrwyddo ei gynnwys Cymraeg i drigolion y sir a'u gwneud yn ymwybodol o'i fodolaeth. Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi bod angen iddo gymryd rhagor o gamau i sicrhau y bydd ei gyhoeddiadau, ei ddogfennau a'i ddeunydd hyrwyddo yn cydymffurfio'n llawn â'i Gynllun Iaith Gymraeg.

58 Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu ymestyn y defnydd o sesiynau blasu Cymraeg, sydd wedi bod yn llwyddiannus o ran darparu porth i ddysgu pellach, mwy ffurfiol. Mae hyfforddiant iaith Gymraeg hefyd yn cael ei gynnwys yng nghynlluniau datblygu personol aelodau'r staff. Mae gwaith eisoes wedi cael ei wneud i asesu safon sgiliau iaith y gweithlu a disgwylir gwybodaeth bellach am hyn yn adroddiad monitro blynyddol nesaf y Comisiynydd y Gymraeg.

# Cydymffurfiodd y Cyngor â gofynion cyhoeddi Llywodraeth Cymru, ond nid yw ei ddulliau o gadarnhau data ar gyfer y contractwr Gwasanaeth Hamdden mor gryf ag y maent ar gyfer ei wasanaethau ei hun

## Roedd adroddiadau'r Cyngor ar berfformiad ar gyfer 2012-13 yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru

59 Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn i ddod ac, erbyn 31 Hydref i gynhyrchu adroddiad sy'n rhoi ei farn ynglŷn â pha mor dda yr oedd wedi cyflawni ei amcanion yn y flwyddyn flaenorol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ardystio a yw'r Cyngor wedi bodloni'r ddau ofyniad hyn.

60 O ran cyhoeddi amcanion gwella daethom i'r casgliad fod y Cyngor wedi cydymffurfio'n llawn â'i ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella o dan y Mesur ac wedi'u cyflawni'n llawn drwy gyhoeddi ei Gynllun, a oedd yn cynnwys ei wyth amcan gwella, ar gyfer y flwyddyn i ddod, sef 2013-14. Cydymffurfiodd y Cyngor â'r terfynau amser cyhoeddi ac roedd y Cynllun ar gael yn gyffredinol i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor yn Gymraeg ac yn Saesneg.

61 Mewn perthynas â'i adroddiad ar ei berfformiad bodlonodd y Cyngor ei rwymedigaeth i gynhyrchu adroddiad erbyn 31 Hydref. Roedd yr adroddiad ar gael yn gyfleus i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Mae systemau i gynhyrchu data perfformiad yn gadarn ar y cyfan, ond maent yn cael eu defnyddio'n anghyson ar gyfer gwasanaethau allanol

62 Mae ansawdd y data yn bwysig gan ei fod yn galluogi'r Cyngor i fesur ei gynnydd a darparu gwybodaeth gadarn a thystiolaeth ynghylch a yw'n cyflawni ei amcanion gwella. Adolygwyd sut mae'r Cyngor yn gwirio ansawdd data:

- a yw'r Cyngor yn dewis y mesurau a'r targedau cywir i allu dangos gwelliant;
- y dulliau casglu a dadansoddi data; a
- sut mae'r canlyniadau'n cael eu hadrodd.

63 Dewiswyd sampl o fesurau perfformiad y Cyngor a systemau data gweithredol ac ystyriwyd eu cywirdeb a'u cadernid. Daethom i'r casgliad fod gan y Cyngor systemau cadarn ar gyfer casglu a dadansoddi data, cynhyrchu gwybodaeth gadarn am berfformiad a'i fod yn adrodd yn briodol ar y wybodaeth hon. Fodd bynnag, er bod y prosesau hyn yn gweithio'n dda ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor yn gyffredinol, mae anghysondebau yn y modd y mae'r systemau yn cael eu defnyddio mewn perthynas â gwasanaethau hamdden y Cyngor a ddarperir gan gyflenwyr allanol sy'n golygu bod rhai o'r dangosyddion perfformiad yn anghywir, yn anghyflawn neu nad ydynt yn cydymffurfio â diffiniadau.

## Mae gan y Cyngor gynlluniau effeithiol ar gyfer rheoli'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu ac mae wedi datblygu cynllun sydd wedi'i fwriadu i baratoi ei weithlu ar gyfer y dyfodol

### Noda Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn 2013-2017 yn effeithiol sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei arbedion arfaethedig

64 Cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod 2013-2017 ym mis Medi 2013. Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, ac yn unol â'r disgwyl, mae'r Cyngor yn rhag-weld gwarged o £1.82 miliwn. Mae'r Strategaeth yn manylu ar sut mae'r Cyngor yn bwriadu sicrhau gostyngiad o £35 miliwn mewn arbedion dros y tair blynedd nesaf.

65 Mae gan y Cyngor gynlluniau ariannol clir a chadarn ar waith a chytunodd Cabinet y Cyngor ar gynigion ar gyfer arbedion ar 24 Chwefror 2014. Mae ei gynlluniau ariannol tymor canolig a hwy yn cynnig arbedion o £6.005 miliwn yn 2015-16 a £7.513 miliwn ar gyfer 2016-17.

66 Cytunodd y Cabinet ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar 7 Hydref 2013. Cytunodd y Cyngor y Gyllideb ar gyfer 2014-15 ar 5 Mawrth 2014.

67 Mae'r Cyngor yn parhau i ymgynghori'n eang ag aelodau a rhanddeiliaid allweddol ar ei Gyllideb ac yn eu cynnwys yn y broses o nodi pa wasanaethau y dylid eu blaenoriaethu.

### Mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro llawer o'i rolau rheoli ac wedi cymryd camau i ymgorffori cynllunio'r gweithlu ar draws y sefydliad, ond mae'n rhy gynnar i asesu ei effaith

68 Un o amcanion gwella'r Cyngor yw datblygu trefniadau cynllunio'r gweithlu effeithiol a chynaliadwy. Canfuwyd bod y Cyngor wedi adolygu ei strwythur uwch reolwyr yn sylweddol ac wedi rhesymoli ei strwythur darparu gwasanaethau a'i strwythur corfforaethol er mwyn cyflawni targedau arbedion a datblygu dull mwy cadarn a chynaliadwy o gyflenwi gwasanaethau.

69 Cyflwynodd y Cyngor gyfres o raglenni hyfforddiant a chymorth i reolwyr i helpu rheolwyr i gyfarwyddo newidiadau arfaethedig i wasanaethau a gweithdrefnau a rhoi'r newidiadau hynny ar waith er mwyn cynnal safonau yn ogystal â sicrhau arbedion. Roedd y rhain yn cynnwys hyfforddiant 'rheoli newid', gwybodaeth am strwythur cyflog statws sengl, presenoldeb mewn hyfforddiant gorfodol ar gynllunio'r gweithlu gan uwch reolwyr a chynyddu'r defnydd o weithio hyblyg a hyblygrwydd contractau.

70 Mae staff a rheolwyr yn adnabod y sgiliau allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol drwy adolygiadau perfformiad a datblygu blynyddol. Mae rhaglen datblygu sgiliau, gan gynnwys cyfryngu, pendantrwydd, sgiliau hyfforddi a mentora wedi dechrau i helpu i nodi a mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau.

71 Cyflwynodd y Cyngor ei Gynllun Gweithlu cyntaf i helpu i sicrhau bod ganddo'r nifer cywir o staff a staff o'r ansawdd cywir i gynnal ansawdd ei wasanaethau. Mae'n bwriadu i Gynllun y Gweithlu gyd-fynd ag amcanion Cynllun Corfforaethol y Cyngor, y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, strwythurau darparu gwasanaeth a rhaglenni hyfforddi. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cyflwyno Strategaeth Adnoddau Dynol sy'n cynnwys newidiadau i amodau gwasanaeth a fydd yn caniatáu i staff addasu i anghenion newidiol gwasanaethau a gofynion cwsmeriaid a'u cynorthwyo i wneud hynny.

72 Mae'r Cyngor hefyd wedi dechrau gweithredu strwythur cyflog statws sengl newydd ar gyfer 4,500 o gyflogeion a ddylai fod yn fwy teg a chynaliadwy. Mae hyn wedi lleihau'r risg o hawliadau cyflog cyfartal ac wedi dileu'r heriau i'w drefniadau cynllunio ariannol. Mae'n rhy fuan i asesu effaith y mentrau hyn. Byddwn yn parhau i fonitro eu cynnydd yn ystod y cyfnod adrodd 2013-14 yn fanwl.

## Yn gyffredinol, mae gan y Cyngor gryfderau o ran ysgogi gwelliannau ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau ac mae'n ymateb yn gadarnhaol i heriau. Fodd bynnag, mae angen gwelliant sylweddol o ran darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl ac o ran rheoli'r contract hamdden

73 Mae gan y Cyngor record dda o adnabod y risgiau allweddol a'r heriau y mae'n eu hwynebu ac mae'n gallu rhoi enghreifftiau o sut mae wedi datblygu fel sefydliad yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn nid yw'r dulliau sy'n cael eu defnyddio'n gyffredinol yn sicrhau gwelliannau sylweddol bob tro ac mae angen cryfhau'r ffordd y caiff gwasanaethau ar gontract allanol eu rheoli a'r broses o graffu arnynt. Awgryma record y Cyngor y bydd yn ymateb yn gadarnhaol i'r her hon.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob Cyngor yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, bod y cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw Cyngor wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes y Cyngor o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn *Adroddiad Gwella Blynyddol* cyhoeddedig ar gyfer pob Cyngor (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r Cyngor a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn Cyngor gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am ardal Bro Morgannwg a'r Cyngor

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £275 miliwn y flwyddyn (2013-14). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,170 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £40.6 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2012-13, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D oedd £1,122 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 5.03 y cant i £1,206 y flwyddyn ar gyfer 2013-14; mae 55.9 y cant o dai Bro Morgannwg yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 47 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 11 Ceidwadwyr
- 3 Annibynnol
- 1 Annibynnol Plaid;
- 6 Plaid Cymru
- 21 Llafur
- 4 Llantwit First Independent
- 1 UKIP

Rheolwr Gyfarwyddwr a Chyfarwyddwr Adnoddau'r Cyngor yw Sian Davies

- Rob Thomas yw Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Datblygu
- Miles Punter yw Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Gweladwy a Thai
- Phil Evans yw Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Jennifer Hill yw'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau

## Gwybodaeth arall

Aelodau’r Cynulliad dros Fro Morgannwg yw:

- Vaughan Gething, De Caerdydd a Phenarth, y Blaid Lafur
- Jane Hutt, Bro Morgannwg, y Blaid Lafur
- David Melding, Canol De Cymru, y Blaid Geidwadol
- Andrew T. Davies, Canol De Cymru, y Blaid Geidwadol
- Eluned Parrott, Canol De Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Leanne Wood, Canol De Cymru, Plaid Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Fro Morgannwg yw:

- Alun Cairns, Bro Morgannwg, y Blaid Geidwadol
- Stephen Doughty, De Caerdydd a Phenarth, y Blaid Lafur

Am ragor o wybodaeth, gweler gwefan y Cyngor ei hun yn www.valeofglamorgan.gov.uk neu cysylltwch â’r Cyngor yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, CF63 4RU.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Sian Davies
Rheolwr Gyfarwyddwr
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holton
Y Barri
CF63 4RU

Annwyl Sian

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 26 Medi 2013, cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol sy'n codi o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 16eg Medi 2013.

- Canfuwyd bod y croniadau ar gyfer Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi'u tanddatgan. Yn y gorffennol, trefn y Cyngor ar gyfer diwedd y flwyddyn oedd sicrhau bod yr anfonebau am waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn mor gyfoes â phosibl. Dyma oedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd ers nifer o flynyddoedd ac roedd hyn yn golygu bod yr angen am groniadau mewn perthynas â gwaith ar ddiwedd y flwyddyn yn fach iawn. Yn ystod archwiliad 2012/13 canfuwyd nad oedd y rheolaeth hon wedi'i gweithredu'n gywir a chafodd rhywfaith o waith a gyflawnwyd yn 2012-13 ei fethu a'i anfonebu yn 2013-14. Roedd gwerth y gwariant hwn yn £ 1.9m. Cytunwyd y byddai gwiriadau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith yn 2012/13 i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gynnwys yn y flwyddyn y mae'n cael ei gwblhau.

- Municipal Mutual Insurance (MMI) - Yn dilyn sbarduno Cynllun Trefniant yr MMI ym mis Tachwedd 2012, cynghorwyd y Cyngor gan Weinyddwr y Cynllun fod ardoll ar gyfradd gychwynnol o 15% wedi'i gosod ar hawliadau a dalwyd er 1993. Yn ein barn ni roedd yn angenrheidiol i'r Cyngor felly gofnodi 15% o'r hawliadau a dalwyd gan MMI er 1993 a'r rhai y cytunwyd arnynt, ond sydd heb eu talu eto, fel credydwr cyfredol i adlewyrchu'r cyfraniad a fydd yn ofynnol i'r Cyngor ei wneud. Pe bai sefyllfa ariannol MMI yn dirywio ymhellach, efallai y bydd ardollau ychwanegol yn cael eu gosod ar Gynghorau. Felly cytunwyd bod angen i'r Cyngor hefyd barhau i fonitro'r sefyllfa i adlewyrchu'r posibilrwydd o ardoll arall yn y dyfodol.

- Roedd balans arian parod ysgolion yn cynnwys dyledwyr a chredydwyr - Datgelodd adolygiad o 'arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod' y Cyngor fod y symiau ar gyfer Ysgolion yn cynnwys cysoni eitemau ar gyfer dyledwyr a chredydwyr, ac felly nid balans arian parod yn unig oedd y balans a ddangoswyd. Roedd gwerth y credydwyr yn £1,037,000 a gwerth y dyledwyr yn £158,000. Roedd hyn yn golygu bod yr arian parod a'r symiau cyfwerth ag arian parod yn cael eu tanddatgan gan oddeutu £1m. Roedd y gwerth yn amherthnasol i'r cyfrifon ond gallai fod wedi bod yn gamarweiniol i ddarllenydd y cyfrifon ac felly argymhellwyd y dylid rhoi cyfrif am yr elfennau hyn ar wahân yn y dyfodol. O 2013/14, cytunodd y rheolwyr i roi cyfrif am y math hwn o ddyledwyr a chredydwyr ar wahân.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i brofi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau’r archwiliad o’r cyfrifon ar 26 Medi 2013.

Ar hyn o bryd, disgwylir i’r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 fod yn unol â’r ffi a gytunwyd ac a nodwyd yn yr Amlinelliad o’r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

**John Golding**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
26 Tachwedd 2013

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun Corfforaethol sy'n cwmpasu'r cyfnod 2013-2017, sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk

Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

| Amcanion gwella 2012-13 | Amcanion gwella 2013-14 |
|---|---|
| • Gwella ansawdd a safon y tai'r sector preifat yn ardal Castleland.<br>• Cymryd llai o amser i ddarparu grantiau ar gyfer cyfleusterau i blant, pobl ifanc ac oedolion anabl, fel bod ein perfformiad o leiaf cystal â pherfformiad cyfartalog Cymru yn gyffredinol yn ystod 2010/11.<br>• Defnyddio ynni'n fwy effeithlon drwy hybu arferion cynaliadwy yn ein busnes er mwyn lleihau ôl troed carbon y Cyngor.<br>• Ailgylchu mwy er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13.<br>• Cynyddu'r gyfran o stoc dai'r Cyngor sy'n cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, erbyn 31 Mawrth 2014.<br>• Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd er mwyn cyrraedd safon berfformio chwartel uchaf Cymru yn ystod 2011/12.<br>• Gwneud y gorau o'n holl adeiladau.<br>• Datblygu dulliau effeithiol a chynaliadwy o gynllunio'r gweithlu ar gyfer y Cyngor. | • Hybu arferion cynaliadwy yn ein busnes gyda ffocws penodol ar hybu lleihau gwastraff, lleihau tirlenwi a chynyddu ailgylchu.<br>• Cymryd llai o amser i ddarparu grantiau ar gyfer cyfleusterau i blant, pobl ifanc ac oedolion anabl, fel bod ein perfformiad o leiaf cystal â pherfformiad cyfartalog Cymru'n gyffredinol yn ystod 2011-12.<br>• Cynyddu nifer y gofalwyr maeth sydd gan y cyngor.<br>• Cefnogi a herio ysgolion i wella lefelau cyrhaeddiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3.<br>• Rhoi dulliau effeithiol a chynaliadwy o gynllunio'r gweithlu ar waith yn y Cyngor.<br>• Ymgysylltu'n well â dinasyddion drwy sicrhau bod barn preswylwyr yn cael ei defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau a gwella a datblygu ymhellach gyfleoedd/mecanweithiau ar gyfer preswylwyr i ddylanwadu ar benderfyniadau.<br>• Mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd gan ganolbwyntio'n benodol ar reoli risg llifogydd ac arfordirol lleol.<br>• Lleihau nifer y bobl ifanc 14-19 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET). |

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2012-2013 ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol:
www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/achieving_our_vision/improvement/improvement.aspx

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk